# P-04-403 Achub Plas Cwrt yn Dre/ Hen Senedd-Dy Dolgellau

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi cyfarwyddyd i Lywodraeth Cymru i brynu Plas Cwrt yn Dre, a elwir hefyd yn Hen Senedd-dy Owain Glyndŵr, Dolgellau, cyn bo'r trysor cenedlaethol hwn yn cael ei werthu ar y farchnad agored a'i golli am byth.

Gwybodaeth ategol:

Symudwyd Plas Cwrt yn Dre, a elwir hefyd yn Hen Senedd-dy Owain Glyndŵr, o Ddolgellau i Barc Dolerw, y Drenewydd ym 1886. Bellach ni all y Crynwyr, perchnogion yr adeilad ar hyn o bryd, fforddio i'w gynnal a'i gadw ac mae ar werth ganddynt am £55,000. Mae hwn, heb os, yn drysor cenedlaethol a chredwn y dylai Llywodraeth Cymru ei brynu ar gyfer y genedl .

Cyflwynwyd y ddeiseb gan: Sian Ifan

Ystyriwyd y ddeiseb am y tro cyntaf: 2 Gorffennaf 2012

Nifer y llofnodion: 218 (Casglwyd 10 llofnod ychwanegol ar ddeiseb gysylltiol)